Atodiad 1

# CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL (CCS) 2020 - 2024 - **Y CYNLLUN GWEITHREDU hyd at 31 MAWRTH 2023**

**Allwedd i'r adrodd (yn y golofn olaf)**

| | |
|---|---|
| **Gwyrdd +** | Wedi cwblhau. |
| **Gwyrdd -** | Bron wedi'i gwblhau (manylion wedi'u cynnwys). |
| **Oren +** | Cynnydd da neu gynnydd mewn meysydd nad ydynt yn dod o dan y canlyniad(au) mesuradwy. |
| **Oren -** | Ychydig o gynnydd neu newid mewn amcan (manylion wedi'u cynnwys). |
| **Coch** | Ychydig iawn o gynnydd neu ddim (manylion wedi'u cynnwys). |

| Nod Strategol 1:<br>*(Prifysgol gyfan)*<br>**Gwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn ar draws y Brifysgol i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb o ddileu gwahaniaethu, meithrin cysylltiadau da a hyrwyddo cyfleoedd i bawb.** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Amcan (o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 – 2024 sydd wedi'i gyhoeddi) | Cyfrifoldeb dros weithredu | Amserlen y camau gweithredu | Mesur llwyddiant y gweithredu | Cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion (gweler yr allwedd) |
| 1.1 | Hyrwyddo cymuned gynhwysol sy'n dathlu ac yn hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn darparu amgylchedd diogel lle mae pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch, ac yn cael eu gwarchod rhag aflonyddu, bwlio, | Undeb y Myfyrwyr a rhwydweithiau perthnasol. Rhwydwaith LHDTC. Adnoddau Dynol. Gwasanaethau Myfyrwyr. | Trwy gydol y flwyddyn. | O leiaf 3 digwyddiad calendr sy'n ymwneud â chydraddoldeb y flwyddyn. | Croesawodd Prifysgol Bangor siaradwr ar-lein, Vivienne Cato, i nodi **Diwrnod Cofio'r Holocost** 2022 gyda digwyddiad ar 27 Ionawr 2022: Anerchiad gan Rywun a Oroesodd yr Holocost: Eva Cato 1926 - 2008 \| Digwyddiadau \| Cyfraith Bangor \| Prifysgol Bangor<br><br>Ac ar 27 Ionawr 2023 fe wnaethom nodi Diwrnod Cofio'r Holocost gyda digwyddiad hybrid ar-lein/Neuadd Powis ar Stori Ruth |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | erledigaeth a gwahaniaethu wrth weithio ac astudio. | | | | a Raimund Neumeyer gyda'r siaradwr gwadd Tim Locke, mab Ruth.<br><br>Ar 8 Mawrth 2022 fe wnaethom nodi **Diwrnod Rhyngwladol y Merched** a'r thema o 'Dorri'r Bias' drwy gynnal digwyddiad gyda'r Athro Nicky Callow a Jo Whitehead, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.<br>Diwrnod Rhyngwladol y Merched (bangor.ac.uk)<br><br>Ac ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched 2023, fe wnaethom nodi'r diwrnod gyda chyfres o ddigwyddiadau, ffilmiau byr a hir yn Pontio ar y thema 'Cofleidio Ecwiti', gan ddathlu pob merch ym Mangor drwy ddigwyddiadau â ffocws croestoriadol, gan gynnwys digwyddiad 'Sgwrs â menywod ym Mangor' gyda phanel amrywiol o staff a myfyrwyr benywaidd, dan gadeiryddiaeth ein Dirprwy Is-gangellorion Cynorthwyol ar gyfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.<br><br>Dangosodd y Brifysgol ei chefnogaeth i'r gymuned LHDTC+ trwy ddod yn Noddwr Aur ar gyfer **Balchder Gogledd Cymru**, a gynhaliwyd ym Mangor ddydd Sadwrn, 25 Mehefin 2022 fel rhan o fis **Balchder**. Fel rhan o nawdd Aur, dangoswyd logo'r Brifysgol ar yr holl ddeunyddiau, a hedfanodd Baner Enfys LHDTC+ uwchben Prif Adeilad y Celfyddydau ar y diwrnod fel ffordd o ymuno yn y mis Balchder lleol a rhyngwladol, sydd wedi ymroi i ddathlu cymunedau LHDTC+ o gwmpas y byd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Bu i'n **Rhwydwaith LHDTC+** barhau i gyfarfod yn rhithiol ac yna dychwelyd yn raddol i gyfarfodydd wyneb yn wyneb trwy 2022.<br><br>Mae Prifysgol Bangor yn cynnal digwyddiadau wedi'u targedu fel rhan o'r rhaglen flynyddol **Mis Hanes Pobl Ddu**. Ym mis Hydref 2022 buom yn gweithio gyda myfyrwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol i gynnal digwyddiad lansio 'Pobl Ifanc, Nawr yw'r Amser' yn Pontio.<br><br>Mae Prifysgol Bangor hefyd yn cefnogi **'Hanes Pobl Dduon Cymru**', gan gydnabod pwysigrwydd Hanes Pobl Ddu drwy gydol y flwyddyn.<br><br>Ddydd Sadwrn, 14 Mai 2022, cynhaliodd PB a Pontio Beth sy'n Digwydd yn Hanes Pobl Ddu Prydain? XIV \| Prifysgol Bangor<br><br>Arddangosfa yn Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis yn 2022 yn cynnwys straeon sut bu i Genhedlaeth Windrush Cymru ymgartrefu yng Nghymru, gan gynnwys arddangos rhai o'r straeon pwerus ar hyd coridor Ystafell y Cyngor ym Mhrif Adeilad y Celfyddydau'r Brifysgol ac yn Pontio:<br><br>www.windrushcymru.org.uk<br><br>Yn Nhachwedd 2022, fel rhan o ddathliadau **Divali**, gwahoddwyd Marcel Clusa o Swyddfa Cefnogi Myfyrwyr |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Rhyngwladol y Brifysgol a thri myfyriwr Indiaidd o Brifysgol Bangor i Gaerdydd ar gyfer digwyddiad arbennig ym mhresenoldeb y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru a Raj Aggarwal, Conswl Anrhydeddus yr India yng Nghymru.<br><br>Gwahoddodd tîm caplaniaeth y Brifysgol staff, myfyrwyr a'u teuluoedd i ddathlu Chanukah ddydd Llun, 29 Tachwedd yn ystafell gyfarfod Anecs Rathbone, i ddysgu am a dathlu **Chanukah**, Gŵyl y Goleuni yr Iddewon.<br><br>Mae’r Gwasanaethau **Anabledd** yn anfon gwybodaeth yn rheolaidd am ddigwyddiadau yn y calendr sy'n ymwneud ag anabledd i fyfyrwyr sydd wedi cytuno i dderbyn e-byst o'r fath pan fyddant yn cofrestru gyda'r gwasanaeth.<br><br>Mae UM wedi cyflwyno swyddog cynwysoldeb i bob pwyllgor ar gyfer clybiau a chymdeithasau ac wedi cynnal hyfforddiant cynhwysiant. Yn ystod 2022, cynhaliodd UM amrywiaeth o ddigwyddiadau cydraddoldeb gan gynnwys digwyddiadau ar gyfer mis Hanes Pobl Ddu, digwyddiadau Gall y Ferch hon o Fangor, Wythnos Ryng-ffydd, cynnal Ffair Ddiwylliannol, datblygu ystafell Synhwyraidd i fyfyrwyr ag anableddau synhwyraidd ac iechyd meddwl a chynnal mis Ymwybyddiaeth Anabledd. Bydd UM hefyd yn datblygu strategaeth gynrychiolaeth ac amrywiaeth gydag ymgynghorwyr allanol yn 2023. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Adnoddau Dynol. Gwasanaethau Myfyrwyr. Data gan y Tîm Llywodraethu a Chydymffurfio. Hyrwyddwyr Cydraddoldeb. | Achosion o aflonyddu i'w hadrodd yn flynyddol. | Gostyngiad yn nifer y staff sy'n teimlo eu bod wedi cael eu haflonyddu neu eu bwlio yn y gwaith yn yr Arolwg Staff. Dengys data bob grŵp myfyrwyr a staff yn cysylltu â’r gwasanaethau cefnogi ar draws yr ystod lawn o faterion. | Yn ystod y flwyddyn academaidd 2021/22:<br>• Cysylltodd 172 o fyfyrwyr y gwasanaeth cefnogi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr.<br>• Fe wnaeth 162 o fyfyrwyr ddatgelu trais rhywiol, aflonyddu, troseddau casineb neu gam-drin hiliol.<br><br>Mae hyn yn gynnydd o gyfanswm o 125 o’r flwyddyn academaidd flaenorol, 2020/21, sy’n adlewyrchu’r dychwelyd i’r campws a’r gwaith rhagweithiol a wnaed gan y Gwasanaethau Myfyrwyr i hyrwyddo a chefnogi datgeliad.<br><br>Yn ystod y cyfnod adrodd, digwyddodd y gwaith achos staff ffurfiol canlynol:<br>• Disgyblu: 1 (1 dyn).<br>• Cwyn: 6 (3 dyn, 3 dynes gydag un achos yn cynnwys elfen o wahaniaethu ar sail rhyw honedig ac achos arall o wahaniaethu ar sail anabledd)<br>• Gallu: 5 (3 dyn, 2 ddynes gydag un aelod o staff yn dod o dan amddiffyniadau anabledd Deddf Cydraddoldeb 2010).<br>• Cyfnod prawf: 5 (2 ddyn, 3 dynes). |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Ffigurau blynyddoedd blaenorol:<br>• Disgyblu: 10 (7 dyn, 3 dynes)<br>• Cwyn: 4 (3 dynes, 1 dyn)<br>• Gallu: 7 (3 dyn, 4 dynes)<br>• Cyfnod prawf: 2 (1 dyn, 1 ddynes)<br>• Apeliadau: 1 (1 ddynes) |
| | | Swyddogion Cydraddoldeb Adnoddau Dynol. Hyrwyddwyr Cydraddoldeb. Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr. | Yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/23. | Cyhoeddi a hyrwyddo Polisi Urddas wrth Weithio ac Astudio wedi'i ddiweddaru. | Mae adolygiad o'r polisi wedi dechrau, gyda drafft yn cael ei ddosbarthu i randdeiliaid yn y sefydliad. Derbyniwyd sylwadau ac maent yn cael eu hystyried, gyda drafft pellach i'w gynhyrchu a pholisi diwygiedig i'w gyflwyno yn ystod 2023.<br><br>Mae tudalen we Adnoddau Dynol bellach yn cynnwys modd i staff adrodd ar bob math o aflonyddu naill ai'n ddienw neu mewn ffordd sy'n arwain at gefnogaeth. |
| | | Adnoddau Dynol (Datblygu Staff). | Arolygon staff i'w cynnal yn 2022 a 2024. | Gwelliannau yng nghyfradd ymateb a chanlyniadau'r arolwg staff bob 2 flynedd. | Gwnaed Arolwg Staff ym mis Chwefror 2022, gyda chynlluniau gweithredu wedi'u datblygu yn seiliedig ar adborth staff i'w rhoi ar waith ar lefel strategol a gweithredol ar draws y brifysgol, a lluniwyd cynllun gweithredu penodol o ran adborth ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth trwy glicio ar y cyswllt. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Gwasanaethau Myfyrwyr. Undeb y Myfyrwyr. | Arolygon Myfyrwyr yn cael eu cynnal yn flynyddol. | Gwelliannau yng nghyfradd ymateb a chanlyniadau'r arolwg myfyrwyr bob blwyddyn. | Nid yw'r UM bellach yn cynnal un arolwg blynyddol, ac yn hytrach cynhaliodd fwy o arolygon thematig yn 2022 ar faterion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a chafwyd ymateb cymharol dda ar bynciau fel iechyd meddwl a chynwysoldeb.<br><br>Fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Myfyrwyr 2021/22, mae cyfraddau ymateb i'n ceisiadau am adborth yn parhau'n isel, ac mae hwn yn faes gwaith parhaus. Fodd bynnag, er bod darpariaeth iechyd meddwl wedi disgyn yn is na'n targed o 85% ar gyfer lefelau boddhad, llwyddodd pob agwedd arall ar y Gwasanaethau Myfyrwyr i gyrraedd, neu ragori ar, y targed hwn, gyda rhai gwasanaethau'n cyflawni dros 90%. |
| 1.2 | Cryfhau ymwybyddiaeth ein harweinwyr a'n staff ynglŷn â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac arfer gorau cysylltiedig. | Adnoddau Dynol (Swyddog Datblygu Staff a Chydraddoldeb). Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr. | Darparwyd a chwblhawyd monitro hyfforddiant blynyddol.<br><br>Adroddwyd y niferoedd yn yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol.<br><br>Hefyd yn barhaus wrth i faterion cydraddoldeb myfyrwyr | Papurau'r Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i'r Bwrdd Gweithredol. Darparwyd sesiynau briffio ychwanegol yn ôl yr angen. | Rhoddwyd sesiynau briffio cydraddoldeb ac amrywiaeth i'r Cyngor a'r Bwrdd Gweithredol ar ddyletswyddau cydraddoldeb statudol a llywodraethu cydraddoldeb, ac un arall ar weithredu Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghymru.<br><br>Cynhaliwyd sesiwn wedi'i hwyluso gan Advance HE ac Adnoddau Dynol ar weithdy Amrywiaeth Bwrdd i aelodau'r Cyngor ar 28/03/2022.<br><br>Bydd rhaglen newydd o weithdai yn cael ei datblygu i aelodau'r Cyngor yn ystod 2023/24. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ddod i'r amlwg. | | |
| | | Adnoddau Dynol (Swyddog Datblygu Staff a Chydraddoldeb). Penaethiaid Ysgolion a Chyfarwyddwyr. | Parhaus ac erbyn diwedd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. | Cynnydd parhaus yn nifer yr holl staff sydd wedi dilyn hyfforddiant cydraddoldeb Rhagfarn Ddiarwybod. | Mae 41% o'r holl staff bellach wedi cwblhau hyfforddiant Rhagfarn Ddiarwybod ers ei gyflwyno. |
| | | Adnoddau Dynol (Swyddogion Datblygu Staff a Chydraddoldeb). Penaethiaid Ysgolion a Chyfarwyddwyr. | Parhaus. | Cynnydd parhaus yn nifer yr holl staff sydd wedi bod yn y gweithdy Cydraddoldeb i Reolwyr. | Mae 214 o staff i gyd wedi cwblhau'r hyfforddiant Cydraddoldeb i Reolwyr. Mae 130, 35.4%, o'r rhain yn Rheolwyr staff. |
| | | Adnoddau Dynol (Datblygu Staff a Gweithrediadau). | Parhaus. | Dangos cynnydd parhaus yn y nifer sy'n dilyn hyfforddiant Arweinyddiaeth. | Mae pecynnau adnoddau AD yn parhau i gael eu datblygu; mae'r ffocws ar hyn o bryd ar gyfres o hyfforddiant i ddatblygu sgiliau Arwain gan gynnwys, lle bynnag y bo modd, canolbwyntio ar themâu cydraddoldeb ac amrywiaeth perthnasol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Adnoddau Dynol (Datblygu Staff a Gweithrediadau). | Wedi gweithio arno yn ystod 2023. | Nifer uchel o staff yn ymwybodol o'r Fframwaith Ymddygiad Proffesiynol yn yr arolwg staff nesaf. | Er bod fframwaith wedi'i ddatblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid yw hwn wedi'i ddatblygu dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhoddir ystyriaeth bellach i fframwaith o’r fath yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, gyda phwyslais arbennig ar unrhyw fframwaith nad yw’n eistedd ar ei ben ei hun ond yn integreiddio â pholisïau ac arferion eraill megis y broses adolygiad datblygu perfformiad (PDR). |
| | | Undeb y Myfyrwyr. | Bob blwyddyn. | Monitro nifer yr arweinwyr myfyrwyr sy'n mynd i'r Gynhadledd Arweinwyr Myfyrwyr a derbyn adborth ganddynt. | Cynhaliwyd y gynhadledd yn 2022. Yn y Gynhadledd Arweinwyr Myfyrwyr, rhoddwyd sylw i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth mewn sesiwn yn ogystal â sut i sicrhau bod eich grŵp yn gynhwysol, yn groesawgar ac yn hygyrch. Ymdriniwyd ag aflonyddu rhywiol a pheidio â goddef aflonyddu yn yr Gynhadledd Arweinwyr Myfyrwyr hefyd. |
| 1.3 | Sicrhau bod cydraddoldeb wedi ei ymgorffori yn ein holl strategaethau a'i fod yn ystyriaeth allweddol gan grwpiau sy'n gwneud penderfyniadau ar draws y brifysgol. | Adnoddau Dynol (Rheolwr Athena SWAN).<br>Bwrdd Gweithredol.<br>Swyddog Cydraddoldeb Adnoddau Dynol.<br>Bwrdd Gweithredol. | Erbyn diwedd mis Mawrth bob blwyddyn (blwyddyn gyntaf Mawrth 2021). | Gwelliant yn amrywiaeth aelodau grwpiau allweddol gan gynnwys y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol a'r Senedd. Cyhoeddir pob mis Mawrth yn yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol. | Mae rhai pethau cadarnhaol amlwg ar gyfer 21/22:<br>cafwyd cydbwysedd rhwng y rhywiau ymhlith aelodaeth grwpiau strategaeth 51%, Benywaidd, 49% Gwrywaidd;<br><br>Arhosodd y Bwrdd Gweithredol 33% yn ferched (i fyny o 30% yn 19/20).<br><br>Roedd y cydbwysedd rhwng y rhywiau ymhlith Penaethiaid Ysgolion bron yn gyfartal, gyda 44% yn ferched a 56% yn ddynion (yn 18/19 dim ond 7% o'r Penaethiaid Ysgolion oedd yn ferched).<br><br>Nodwyd bod gan ddau grŵp strategaeth <10% yn ferched yn 20/21 - aethpwyd i'r |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | afael â hyn ar gyfer y Grŵp Strategaeth Ddigidol a chynyddodd o 10% yn ferched i 31%. Nid yw hyn wedi'i newid eto gyda'r grŵp strategaeth Ystadau.<br><br>Rhai agweddau sy'n peri pryder:<br><br>Mae'r Senedd wedi gostwng o raniad 50:50 i 43% yn ferched oherwydd ailstrwythuro ar ddechrau 21/22 lle cafodd Ysgolion eu huno. Yn 20/21 roedd 14 o ysgolion academaidd, pob un â 2 gynrychiolydd ar y Senedd ac ers 21/22 mae gennym bellach 9 ysgol academaidd. Roedd 62 o aelodau'r Senedd yn 20/21 a 47 yn 21/22. Mae'r Cyngor hefyd wedi gostwng i 30% yn ferched.<br><br>Rhaglen Aurora: Mae 9 merch sy'n aelodau staff wedi cwblhau rhaglen Aurora ers 2020 pan ariannodd Prifysgol Bangor leoedd ar y rhaglen hon i ddechrau. Ar hyn o bryd mae gennym 7 o gyfranogwyr wedi'u cadarnhau ar raglen 2023. |
| | | Deoniaid, Rheolwyr Colegau. Swyddog Cydraddoldeb Adnoddau Dynol. Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr. | Pwyllgorau i'w sefydlu erbyn Rhagfyr 2020. Lleiafswm o 3 chyfarfod y flwyddyn. | Creu Pwyllgorau Cydraddoldeb y Colegau ac adrodd ar eu gweithgarwch. | Mae gan bob un o'r tri Choleg bellach Bwyllgorau Cydraddoldeb Coleg sydd wedi'u hen sefydlu, sy'n cyfarfod yn rheolaidd, ac yn cael eu harwain gan uwch staff y Coleg. Maent yn adrodd i'r Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae arweinydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth/Athena Swan pob Ysgol yn aelod o Bwyllgor Cydraddoldeb eu Coleg. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Yn ogystal, mae gan rai o’r Ysgolion mwyaf eu Pwyllgorau Cydraddoldeb eu hunain e.e. mae gan yr Ysgol Gwyddorau Iechyd eu Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cynnwys staff a myfyrwyr, yn dilyn yr uno diweddar rhwng Gwyddorau Meddygol a Gwyddorau Iechyd, anfonir gwahoddiadau yn gofyn am gynrychiolaeth o'r Gwyddorau Meddygol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol. Swyddog Cydraddoldeb Adnoddau Dynol. Hyrwyddwyr Cydraddoldeb. | Wedi'i sefydlu erbyn haf 2024. | Creu Pwyllgor Cydraddoldeb Gwasanaethau Proffesiynol ac adrodd ar eu gweithgareddau. | Mae Pwyllgor Cydraddoldeb Gwasanaethau Proffesiynol yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd, gydag arweinydd wedi'i benodi a Chylch Gorchwyl yn cael ei ddrafftio. Disgwylir y bydd yn rhedeg erbyn haf 2024. |
| 1.4 | Sicrhau dealltwriaeth eang o'r berthynas rhwng cydraddoldeb a chynaliadwyedd. | Swyddog Cynaliadwyedd Ystadau | Parhaus | | Mae cynaliadwyedd bellach yn rhan o'n Strategaeth 2030: Strategaeth Gynaliadwyedd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.5 | Gwella'r wybodaeth sydd gennym am bobl â nodweddion gwarchodedig i alluogi gwneud penderfyniadau gwybodus a gwella dealltwriaeth o'r anghenion a'r rhwystrau sy'n wynebu pobl mewn grwpiau gwarchodedig a chodi ymwybyddiaeth am y Model Cymdeithasol Anabledd. | Cadeirydd Grŵp Strategaeth Amrywiaeth a Chydraddoldeb, Swyddfa Gynllunio a Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr. | Parhaus | Gwella ein sylfaen dystiolaeth i lywio ymyriadau. | Mae demograffeg myfyrwyr bellach yn cael eu cyflwyno yn ein datganiad canlyniadau gradd ac yn ein hadroddiad dosbarthiad graddau.<br><br>Mae cynllunio'n datblygu prosesau newydd i gasglu gwybodaeth 'Taith Myfyrwyr' o'r cyfnod cyn-astudio i'r cyfnod ar ôl gadael y Brifysgol, a disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau yn 2023.<br><br>Mae ein Tîm Cynllunio bellach yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol Data Cydraddoldeb Myfyrwyr. Ar ôl ei gyhoeddi, bydd hwn i'w weld ar ein gwefan, yma:<br>Polisïau (bangor.ac.uk) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cynllunio. Swyddog Projectau a Systemau Adnoddau Dynol a Swyddog Cydraddoldeb. Pwyllgorau Cydraddoldeb y Colegau. | Monitro ac adrodd blynyddol bob mis Mawrth o fewn yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol | Adolygir casglu data yn flynyddol. | Defnyddiwyd Canllawiau Advance HE ar Gasglu Data Monitro Amrywiaeth, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, i sicrhau bod y data staff a gasglwn yn briodol, ac mae hyn wedi bwydo i mewn i ddatblygiad y system Adnoddau Dynol a Chyflogres newydd (sydd i'w lansio yn 2023). |
| | | Cynllunio. Swyddog Projectau a Systemau Adnoddau Dynol. | Parhaus wrth i systemau gael eu diweddaru | Dileu'r gofyniad i gynnwys teitlau rhyweddol os yw'n well gan staff a myfyrwyr, wrth i systemau | Cafodd yr opsiwn i adael y teitl yn wag ei gynnwys ar draws ein systemau yn 2022. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gael eu diweddaru. | |
| | | Swyddog Cydraddoldeb Adnoddau Dynol. Swyddog Cydraddoldeb Myfyrwyr. Y Gwasanaethau Anabledd. | Parhaus | Nifer y myfyrwyr sydd â Chynllun Cefnogi Dysgu Personol yn gymesur â’r ganran o fyfyrwyr anabl. Cyflawni'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a osodir gan y Llywodraeth o ran nifer y myfyrwyr sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl. | Wedi'i gwblhau a pharhaus. |
| | | | | | |
| | | Swyddog Cydraddoldeb a Datblygu Staff Adnoddau Dynol. Hyrwyddwyr Cydraddoldeb. Rhwydwaith LHDTC. | Parhaus. | Gwell cyfraddau datgelu staff, yn enwedig am gyfeiriadedd rhywiol a chrefydd, cred neu ddiffyg cred. | Cafwyd adborth gan aelodau Rhwydwaith Staff LHDTC+, nad oedd rhai ohonynt wedi datgelu cyfeiriadedd rhywiol mewn arolygon blaenorol oherwydd nad oedd rheswm clir pam y gofynnwyd hyn. Cynhaliwyd ymarfer gyda staff LHDTC+ trwy’r rwydwaith staff i esbonio pam rydym yn casglu gwybodaeth am staff gyda PCs, sut mae'n helpu amrywiaeth a sut mae data'n cael ei ddefnyddio.<br>Mae cadeirydd y Rhwydwaith nawr yn edrych ar gyflwyno'r ymarfer hwn fel rhan o gyfarfod rheolaidd ag aelodau staff y Rhwydwaith.<br><br>Yn y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi gweld gwelliannau yn nifer y staff sy'n datgelu |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | cyfeiriadedd rhywiol - o 18.9% heb ddatgelu yn y flwyddyn flaenorol i 16.9 yn y flwyddyn adrodd hon.<br>Yn yr un modd ar gyfer staff sy'n adrodd am grefydd/cred/diffyg cred, roedd gwelliannau o 16.7% yn y flwyddyn flaenorol i 15.1% o staff yn datgelu yn y cyfnod adrodd hwn.<br><br>Yn gyffredinol, mae nifer y staff nad ydynt yn datgelu cyfeiriadedd rhywiol a ffydd wedi bod yn gostwng yn barhaus ers 4 blynedd. |
| | | Bwrdd Gweithredol. Swyddog Cydraddoldeb Adnoddau Dynol. Hyrwyddwyr Cydraddoldeb. Pob rheolwr. | Parhaus. | Diffiniad IHRA wedi'i gyhoeddi a gweithgarwch codi ymwybyddiaeth. | Mabwysiadwyd diffiniad yr IHRA o wrthsemitiaeth ym mis Hydref 2020. Ers y cam hwn, mae codi ymwybyddiaeth wedi digwydd drwy roi gwybod i staff drwy'r Bwletin Staff, mae datganiad wedi'i gyhoeddi ar dudalen we AD, mae ymwybyddiaeth o wrthsemitiaeth wedi'i gynnwys yn y Gweithdy Cydraddoldeb i Reolwyr a chynhelir digwyddiad Cofio'r Holocost ym mis Ionawr bob blwyddyn. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.6 | Gweithio i ddatblygu cynlluniau gweithredu llesiant a'u rhoi ar waith i staff a myfyrwyr yn unol â datganiad polisi HEFCW ar lesiant ac iechyd mewn Addysg Uwch. | Grŵp Iechyd a Lles. | 2022 | Gwelliant yng nghanlyniadau iechyd a lles yn yr Arolwg Staff ym meysydd iechyd a lles a phroblemau llwyth gwaith. | Mae gwybodaeth am ein Arolwg Staff 2022 i'w gweld trwy glicio ar y ddolen.<br><br>O 2022 ymlaen, mae'r holl staff bellach yn cael y cyfle i drafod iechyd a lles fel rhan o'u Adolygiad Datblygu Perfformiad blynyddol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Grŵp Iechyd a Lles. Swyddog Cynaliadwyedd. Gwasanaethau Myfyrwyr Undeb y Myfyrwyr Adnoddau Dynol | 2023 | Gostyngiad mewn achosion o absenoldeb salwch. | Mae’r grŵp Iechyd a Lles bellach wedi’i sefydlu ac nid yw’r cam gweithredu i gyd-ddatblygu Dangosydd Perfformiad Allweddol wedi’i gwblhau eto, a rhagwelir y bydd yn cael ei wneud cyn diwedd 2023. |
| 1.7 | Parhau i hyrwyddo'r defnydd o asesiadau effaith cydraddoldeb i barhau i gynyddu'r nifer sy'n ymateb a'r ansawdd er mwyn sicrhau bod penderfyniadau gwybodus yn cael eu gwneud. | Bwrdd Gweithredol. Llywodraethu a Chydymffurfio. Swyddog Cydraddoldeb Adnoddau Dynol. Hyrwyddwyr Cydraddoldeb. Pob rheolwr. Undebau Llafur. | Parhaus. | Cynnydd yn nifer yr Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a gwblhawyd ac a gyhoeddwyd. | Mae cwblhau Asesiadau Effaith Cydraddoldeb bellach yn gyffredin ar draws y Brifysgol gyda thempled a chanllawiau yn ogystal ag unigolyn enwebedig i gefnogi staff wedi'u cyhoeddi ar ein Mewnrwyd. Mae rhai enghreifftiau o’r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a gwblhawyd yn y cyfnod adrodd yn cynnwys:<br>Pecyn Cymorth Gweithio Deinamig.<br>Cynllun Prentisiaethau Gradd.<br>Y Strategaeth Ymestyn yn Ehangach diwygiedig.<br>Mae'r cam hwn yn parhau. |
| | | Canolfan Bedwyr. | 2020/2021 ac yn parhau. | Darparwyd templed, arweiniad a hyfforddiant i staff. | Datblygwyd gan Ganolfan Bedwyr. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.8 | Sicrhau bod data caffael ar waith i ddangos amrywiaeth ym maes caffael. | Cyllid (Caffael a Thaliadau). | Yn flynyddol trwy gyfrwng y broses archwilio. | Cynnig tystiolaeth o sut mae cyflenwyr yn ymgorffori cydraddoldeb ac amrywiaeth yn eu gweithdrefnau a'u prosesau eu hunain. | Mae'r Tîm Cyllid yn sicrhau bod hyn yn ei le drwy'r archwiliad blynyddol. |
| | | Cyllid (Caffael a Thaliadau). Swyddog Cynaliadwyedd. | Yn flynyddol trwy gyfrwng y broses archwilio. | Rhestr wirio wedi'i hadolygu a'i diweddaru yn ôl yr angen. | Mae'r Tîm Cyllid yn sicrhau bod hyn yn ei le drwy'r archwiliad blynyddol. |
| | | Cyllid (Caffael a Thaliadau). Adnoddau Dynol (Datblygu Staff). | Yn flynyddol trwy gyfrwng y broses archwilio. | Sicrhau cydymffurfiaeth yn ystod yr archwiliad blynyddol. | Mae'r Tîm Cyllid yn sicrhau bod hyn yn ei le drwy'r archwiliad blynyddol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.9 | Cynyddu hygyrchedd i bawb ar draws yr ystad, yn ffisegol ac yn ddigidol. | Bwrdd Gweithredol. Gwasanaethau Campws ac Ystadau. Adnoddau Dynol. | Parhau â chamau gweithredu’r Model Cymdeithasol o Anabledd yn ystod blwyddyn | Trwy'r Strategaeth Ystadau, a ddarperir trwy raglen waith flynyddol. | Wedi'i gynnwys yn y Strategaeth Ystadau. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | academaidd 2023/2034. | | |
| | | Bwrdd Gweithredol. Gwasanaethau Campws ac Ystadau. | Adolygiad o'r ystâd erbyn 2024. | Data gwaelodlin wedi'i gasglu e.e. faint o adeiladau sy'n hygyrch/yn anhygyrch. | Wedi'i gynnwys yn y Strategaeth Ystadau. |
| | | Gwasanaethau TG. Gweithgor Hygyrchedd Digidol. Canolfan Bedwyr. Gwasanaethau Myfyrwyr (Gwasanaethau Anabledd). | Parhaus. | Mae adnoddau ar-lein yn hygyrch i bawb yn unol â deddfwriaeth newydd. | Mae'r Gwasanaethau TG a'r Gweithgor Hygyrchedd Digidol wedi datblygu prosesau i sicrhau hygyrchedd ar yr amgylchedd dysgu rhithiol trwy Blackboard.<br><br>Comisiynwyd 'All Able' a chwblhawyd archwiliad hygyrchedd o wefan Prifysgol Bangor yn 2022.<br><br>Mae datganiadau hygyrchedd cydymffurfio ar wahân bellach wedi'u datblygu:<br><br>https://www.bangor.ac.uk/accessibility-statement<br><br>Bellach gellir ymuno â llawer o gyfarfodydd adrannol a phrifysgol o bell, sy'n golygu bod staff â gofynion hygyrchedd a chyfrifoldebau gofalu yn fwy tebygol o allu mynychu. |
| | | CELT. | Parhaus. | Darparwyd hyfforddiant | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu. Datblygu Staff. | | hygyrchedd digidol i staff. | Pwysleisiwyd cynwysoldeb i bawb ym mhob gweminar dilynol yng nghyfres yr haf a'r gaeaf, gan gynnwys sesiynau wedi'u neilltuo ar gyfer asesu ac adborth ar-lein, addysgu hybrid, a chyflwyno addysgu a dysgu dwyieithog.<br><br>Anogwyd aelod o'r Gwasanaethau Anabledd hefyd i fynychu pob sesiwn gweminar i sicrhau bod llais 'hygyrchedd' yn cael ei gynrychioli, a chyhoeddir yr holl recordiadau gweminar ochr yn ochr ag adnoddau atodol ar wefan Hyfforddiant ac Adnoddau Staff CELT.<br><br>Yn ogystal, mae un o'r pedair prif ddewislen ar y wefan yn cynnwys canllawiau a deunyddiau astudio pellach wedi'u neilltuo i "Mynediad i Bawb: Dysgu Cyfunol - camau syml i gynnwys eich holl fyfyrwyr".<br><br>Er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth ymhlith cydweithwyr, yn 2022, casglodd y tîm Cefnogi Addysgu a Dysgu adnoddau defnyddiol sy'n cynnwys gwybodaeth am Blackboard Ally, dolenni i wybodaeth am y gwasanaeth digideiddio sydd ar gael gan y Gwasanaethau Digidol, a manylion cwrs hanfodion Microsoft Accessibility.<br><br>Adnoddau hygyrchedd i helpu staff |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Gwasanaethau Anabledd. | Parhaus. | Galluogir staff i gynhyrchu deunydd digidol yn unol â Rheoliadau Hygyrchedd i Gyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau Symudol) (Rhif 2) 2018. | Mae'r Gwasanaethau TG a'r Gweithgor Hygyrchedd Digidol wedi datblygu prosesau i sicrhau hygyrchedd ar yr amgylchedd dysgu rhithiol trwy Blackboard.<br><br>Mae datganiadau hygyrchedd cydymffurfio ar wahân yn cael eu datblygu yn ystod y flwyddyn academaidd hon.<br><br>Rydym wedi creu datganiad hygyrchedd ar gyfer ein gwefan mewn cydweithrediad ag All Able Cyf:<br><br>https://www.bangor.ac.uk/accessibility-statement |
| | | Gweithgor Hygyrchedd Digidol. | Parhaus. | Galluogir staff i gynhyrchu deunydd digidol yn unol â Rheoliadau Hygyrchedd i Gyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau Symudol) (Rhif 2) 2018. | Bydd y Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth a'r Gweithgor Hygyrchedd Digidol wedi cwblhau datganiadau hygyrchedd cydymffurfio ar wahân erbyn diwedd y flwyddyn academaidd hon. |
| | | | | | Mae capsiynau fideo Saesneg mewn sesiynau addysgu ar-lein bellach wedi'i awtomeiddio yn 'Collaborate'.<br><br>Mae capsiynau fideo Cymraeg 'Transgrifiwr' yn cael ei ddatblygu gyda Chanolfan Bedwyr - mae'n adnabod lleferydd yn awtomatig ond nid yw eto'n cydymffurfio â hygyrchedd yn y Gymraeg ac felly mae angen capsiynau dynol i sicrhau bod capsiynau'n gadarn ac mae hyn hefyd yn wir am Panopto. Bydd gwaith yn mynd rhagddo yn 2023.<br><br>Mae 90% o ddarlithoedd bellach yn cael eu recordio. Mae'r Gwasanaethau TG wedi prynu |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | meddalwedd Ally i gefnogi staff i wella hygyrchedd eu hadnoddau ar-lein. |
| | | Gwasanaethau TG. | Parhaus | Cynhyrchir yr ystadegau gan Ally. Yr adroddiad cychwynnol i'w gymharu ag adroddiad ymhen 6 mis i fonitro datblygiadau. Ymyriadau i'w rhoi ar waith lle bo angen. | Mae’r Gwasanaethau TG wedi prynu meddalwedd Ally i gefnogi staff i wella hygyrchedd eu hadnoddau ar-lein. Bydd y Gwasanaethau TG yn gweithio gydag Ysgolion i nodi meysydd lle mae angen gwneud gwelliannau h.y. lle nad yw adnoddau'n hygyrch. |
| | | Bwrdd Gweithredol. Canolfan Bedwyr. Gwasanaethau TG. Gwasanaethau Anabledd. | 2023 | Mae dogfennau dwyieithog yn hygyrch. Datblygwyd strategaeth i sicrhau bod dogfennau dwyieithog yn hygyrch i bawb. | Mae capsiynau fideo Cymraeg 'Transgrifiwr' wedi ei ddatblygu gyda Chanolfan Bedwyr.<br><br>Mae'n adnabod lleferydd yn awtomatig ond nid yw eto'n cydymffurfio â hygyrchedd yn y Gymraeg ac felly mae angen capsiynau dynol i sicrhau bod capsiynau’n gadarn ac mae hyn hefyd yn wir am Panopto. Bydd gwaith yn mynd rhagddo yn 2023. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.10 | Creu amgylchedd gwaith cefnogol i staff benywaidd gan gynnwys gweithredu i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac ehangu ein dadansoddiad i ystyried bylchau eraill o ran nodweddion gwarchodedig. | Adnoddau Dynol. | Monitro metrigau sy'n gysylltiedig â rhywedd yn flynyddol. | Cynnydd yn nifer yr uwch-academyddion ac uwch staff proffesiynol benywaidd.<br><br>Gostyngiad yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. | Mae cynllun gweithredu'r adroddiad bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn parhau i symud ymlaen (gweler adroddiad GPG am fanylion llawn). Polisïau (bangor.ac.uk)<br><br>Rhaglen Aurora Advance HE (merched i arweinyddiaeth) - 4 cyfranogwr yn 2020 a dyfarnwyd 2 le gennym ar gyfer 2022.<br><br>Mae ymrwymiad y prifysgolion i Athena Swan a Siarteri Cydraddoldeb Hil Advance HE bellach yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried a dangos dull croestoriadol o nodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, ac rydym bellach yn ehangu ein dadansoddiad yn unol â hynny. |
| | | Adnoddau Dynol. Gwasanaethau Myfyrwyr. Iechyd a Diogelwch. | Blwyddyn academaidd 2023/24 | Datblygu a hyrwyddo Cynllun Gweithredu. | Ffurfiwyd Gweithgor Menopos ym mis Ionawr 2022 gyda rhanddeiliaid ar draws y Brifysgol yn canolbwyntio ar edrych ar y gefnogaeth sydd ar gael i staff, a chreu cynllun gweithredu:<br>• Adolygwyd tudalennau gwe Iechyd Galwedigaethol ac Iechyd a Lles, a diweddarwyd y cynnwys.<br><br>• Crëwyd Canllawiau Menopos ar gyfer yr holl staff ac fe'i hyrwyddwyd ar dudalennau gwe Iechyd Galwedigaethol ac Iechyd a Lles.<br><br>• Cynhaliwyd digwyddiad ar-lein i ddathlu Diwrnod Menopos y Byd ar 18fed Hydref 2022 a bu nifer dda yn bresennol.<br><br>• Cynhaliwyd sesiwn beilot hyfforddiant Ymwybyddiaeth Menopos i Reolwyr Llinell ar 13 Rhagfyr 2022 gyda'r bwriad o'i gyflwyno'n chwarterol ac ehangu'r hyn a gynigir o ran codi ymwybyddiaeth i'r holl staff. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Cyflwynwyd cyfres beilot Lolfa Menopos dan arweiniad y Coleg Gwyddorau Dynol ac Ymddygiadol fel cyfres Lolfa Menopos 6 rhan ar gyfer staff ar draws y brifysgol, gan ddechrau fis Rhagfyr 2022, gan ddarparu man diogel â chymorth i ddysgu am y menopos, peri-menopos.<br><br>Mae'r ffocws felly wedi bod ar ddatblygu'r fenter yn y sefydliad a bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r Addewid ar gyfer 2023/24. |
| | | Adnoddau Dynol | Parhaus, yn flynyddol. | Cynnwys bwlch cyflog ethnigrwydd a bwlch cyflog anabledd. | Adroddwyd am fwlch cyflog ethnigrwydd am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2020 ac adroddir bellach yn flynyddol yn barhaus.<br><br>Adroddwyd am fwlch cyflog anableddau ym mis Mawrth 2022 a bydd yn cael ei adrodd bob blwyddyn wedi hynny. |
| | | Bwrdd Gweithredol. Adnoddau Dynol. | Fel rhan o'r cylch cynllunio. | Mae cyfnod mamolaeth yn hawl i bob aelod o staff benywaidd. | Adolygir fel rhan o'r cylch cynllunio. Mae swyddi bellach wedi'u cymeradwyo i gyflenwi yn lle staff ar absenoldeb mamolaeth. Mae cyllid ychwanegol a chyllid wedi'i glustnodi bellach yn ei le ar gyfer camau gweithredu cydraddoldeb gan gynnwys galluogi staff sy'n dychwelyd o absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb mabwysiadu i gael llai o ddyletswyddau am ychydig fisoedd ar ôl dychwelyd i ganolbwyntio ar un o'u meysydd gwaith blaenoriaeth e.e. ymchwil. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Grŵp/Rheolwr Athena SWAN Adnoddau Dynol. Yr Ysgol Ddoethurol. | Blwyddyn academaidd 2020/21. | Nid yw myfyrwyr ôl-radd ymchwil yn cael eu trin yn llai ffafriol na staff. | Mae trafodaethau ar y gweill fel rhan o gyfarfodydd rheolaidd rhwng yr Ysgol Ddoethurol ac Adnoddau Dynol. Bu oedi cyn cwblhau'r gwaith hwn ond disgwylir gwybodaeth gan yr Ysgol Ddoethurol yn ystod Haf 2023 i symud y cam hwn ymlaen. |
| 1.11 | Sicrhau bod pob ysgol wedi gwneud cais am wobrau Athena SWAN erbyn 2023, neu'n gweithio tuag atynt. | Grŵp/Rheolwr Athena SWAN. Penaethiaid Ysgolion. Hyrwyddwyr Cydraddoldeb. | Yn flynyddol (Cyflwyniad au ysgolion ym mis Ebrill a Thachwedd bob blwyddyn). Sefydliad cyfan 2023. | Mesurau fel y'u diffinnir yng Nghynllun Gweithredu Athena SWAN | Gwnaeth tair Ysgol arall gais llwyddiannus am wobr Athena SWAN yn rownd Tachwedd 2020. Bellach mae gan saith Ysgol wobrau Efydd (Ysgol Gwyddorau'r Eigion, Seicoleg, Busnes, Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig, Ysgol Gwyddorau Naturiol, Ysgol Chwaraeon, Iechyd a Gwyddorau Ymarfer Corff, Ysgol Gwyddorau Iechyd (mae'r Ysgol Gwyddorau Iechyd yn uno â'r Ysgol Gwyddorau Meddygol a bydd y wobr yn berthnasol).<br>Dim cyflwyniadau pellach ers 2020 oherwydd bod y siarter yn cael ei diwygio. Mae'r tair ysgol arall bellach yn gweithio tuag at gyflwyno yn 2023.<br><br>Dechreuwyd fynd drwy gamau gweithredu Athena SWAN ac mae'r gwaith hwn yn parhau.<br><br>Recriwtiwyd i rôl newydd Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn 2022 gyda chyfrifoldeb am ein gwaith ar ennill gwobr arian Athena Swan ar draws y sefydliad. |

| Nod Strategol 2:<br>(*yn canolbwyntio ar fyfyrwyr*)<br>**Darparu amgylchedd dysgu a byw cynhwysol, cefnogol, a diogel i fyfyrwyr.** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Amcan | Cyfrifoldeb | Amserlen | Mesur llwyddiant | Cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion (gweler yr allwedd) |
| 2.1 | Hyrwyddo cymuned gynhwysol sy'n dathlu ac yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y brifysgol. Ymdrechu i sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi a bod ganddynt fynediad cyfartal i holl wasanaethau'r brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Hyrwyddo a dathlu amrywiaeth ein myfyrwyr a'n grwpiau myfyrwyr a hyrwyddo | Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr. | Parhaus. | Monitro'r defnydd o wasanaethau cefnogi ar draws yr holl grwpiau myfyrwyr. | Mae'r gwaith yma'n cynnwys datblygu is-safle Cymuned Gynhwysol yn FyMangor:<br><br>Ein Cymuned Prifysgol Gynhwysol \| Cymuned Ein Prifysgol \| Prifysgol Bangor<br><br>Dyfarnwyd Ysgoloriaethau Cynhwysol Bangor 22/23 i dri myfyriwr rhagorol – un fesul Coleg. Bwriad yr ysgoloriaethau (menter Athena Swan PB) yw cefnogi myfyrwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau ym Mangor er mwyn tynnu sylw at amrywiaeth a chynwysoldeb ein myfyrwyr a dathlu hynny, i sicrhau bod llais a phrofiad myfyrwyr yn rhan o agenda cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb ac agenda Athena Swan y brifysgol ac er mwyn cefnogi datblygiad gyrfa'r myfyrwyr hynny sy'n cyfrannu at y ddwy agenda bwysig hyn.<br><br>Mae ein Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr yn darparu cefnogaeth arbenigol ar gyfer aflonyddu, troseddau casineb a thrais rhywiol, ac yn gweithio'n agos gydag Undeb y Myfyrwyr ar ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb ymhlith myfyrwyr. Rydym yn cymryd safiad rhagweithiol ar fynd i'r afael ag adroddiadau o aflonyddu neu droseddau casineb, gan gymryd camau disgyblu lle bo angen, a darparu ymyriadau hyfforddi lle bo angen i sicrhau bod pob myfyriwr yn deall disgwyliadau ymddygiad ac yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael. Mae'r dull sefydliadol hwn yn sicrhau bod ein cefnogaeth iechyd a lles yn cynnwys anghenion myfyrwyr â nodweddion gwarchodedig. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | diwylliant cynhwysol a'r Polisi Aflonyddu ar Fyfyrwyr. | | | | |
| | | Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr. | Parhaus. | Monitro'r defnydd o wasanaethau cefnogi ar draws yr holl grwpiau myfyrwyr. | Mae ein Polisi Aflonyddu ar Fyfyrwyr ar gael yma https://my.bangor.ac.uk/cynhwysol<br><br>Mae'r Gwasanaethau Myfyrwyr yn ei adolygu a'i ddiweddaru yn ôl yr angen.<br><br>Mae pob myfyriwr yn cael ei gyfeirio at godau ymddygiad proffesiynol ac mae cynlluniau ar y gweill i sicrhau bod pob myfyriwr yn ymwybodol o'r Siarter Myfyrwyr trwy gyfarfodydd Pwyllgor Cyswllt Staff-Myfyrwyr a chynrychiolwyr cyrsiau. |
| | | Tîm Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol | Parhaus. | Monitro'r ymgysylltiad â Bwletin Myfyrwyr Rhyngwladol. | Mae'r Swyddfa Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol yn creu Bwletin Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol yn benodol i rannu'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae'n cynnwys hysbysebion gan wahanol adrannau ac yn rhannu newyddion da am fywyd rhyngwladol ym Mangor.<br><br>Mae pob rôl arbenigol yn cael ei hysbysebu ar draws Ysgolion neu Golegau. Ar hyn o bryd yn yr Ysgol Gwyddorau Iechyd, gofynnir am ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer dirprwy diwtor anabledd ac arweinydd rhyngwladoli er mwyn gwella amrywiaeth y staff arbenigol i ymgysylltu ag ystod eang o fyfyrwyr. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Gwasanaethau Myfyrwyr.<br>Tîm Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol<br>Bywyd Preswyl. | Parhaus. | Monitro presenoldeb mewn digwyddiadau a chael adborth ar ddigwyddiadau mewnol a digwyddiadau gyda grwpiau cymunedol / sefydliadau allanol. | Mae'r tîm Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol yn parhau i drefnu llawer o ddigwyddiadau sy'n dathlu amrywiaeth ac yn parhau i gynnal gweithdai cynhwysiant sydd wedi cael ymateb da.<br><br>Mae Bywyd Preswyl yn datblygu calendr o ddigwyddiadau cynhwysol, wedi'i gynllunio i apelio at bob myfyriwr, a chynnig cefnogaeth trwy'r trawsnewid i fywyd cymunedol.<br><br>Mae’r rhaglen Campws Byw wedi ymrwymo i gefnogi rhyngweithio rhwng myfyrwyr neuaddau Prifysgol Bangor, gan annog goddefgarwch a dealltwriaeth, a meithrin cymuned breswyl glos trwy galendr o ddigwyddiadau cynhwysol sy’n cael eu creu gan fyfyrwyr, ar gyfer myfyrwyr ac sydd felly’n denu ac yn annog cyfranogiad o blith ein carfan amrywiol o drigolion.<br><br>Mae pob digwyddiad wedi'i gynnwys o fewn ffioedd neuaddau myfyrwyr, sy'n sicrhau bod y calendr cyfan yn bosibl yn ariannol.<br><br>Ymhlith y digwyddiadau a gynigir ar yr ystod calendr mae:<br><br>• Sesiynau datblygiad personol e.e. ysgrifennu CV / ymdopi â straen a phryder<br>• Cinio dydd Sul (sy’n darparu ar gyfer yr holl ofynion dietegol)<br>• Sesiynau dysgu coginio<br>• Ymwybyddiaeth Ofalgar ac Ioga (cynnal sesiynau ychwanegol o gwmpas amser arholiadau)<br>• Cerdded a Sgwrsio (sesiynau lles)<br>• Dianc a Darganfod - gan gynnwys teithiau cerdded ac ymweld ag atyniadau’n lleol, a marchnad Nadolig Manceinion<br>• Sesiynau crefft – gwneud gemwaith, crefftau Nadolig, peintio a phanad<br>• Bwyd a siocled poeth am ddim yn rheolaidd<br>• Bingo a chwisiau. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Mae tîm myfyrwyr Cydlynwyr Campws Byw yn cynrychioli cyfansoddiad amrywiol ein cymuned anhygoel o fyfyrwyr.<br><br>Mae Cydlynwyr Campws Byw yn cynorthwyo mewn diwrnodau agored a digwyddiadau croeso rhyngwladol, i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei hysbysebu'n llawn i fyfyrwyr newydd a darpar fyfyrwyr. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Mae'r amserlen digwyddiadau yn cael ei chreu ar y cyd â myfyrwyr i ddarparu profiad diddorol a chyfannol, gan ganolbwyntio ar les, sgiliau bywyd a chysylltiadau ag eraill.<br><br>Mae tîm o fyfyrwyr-fentoriaid ac uwch wardeiniaid hefyd yn darparu gofal bugeiliol a chymorth lles yn lleoliadau preswyl y Brifysgol, gan gyfeirio myfyrwyr at wasanaethau cefnogi lle bo angen.<br><br>Caiff presenoldeb ei fonitro ar gyfer pob carfan yn ôl oedran, neuaddau preswyl, is-radd/ôl-radd, D.U. neu Ryngwladol.<br><br>Cynigir dosbarthiadau Saesneg am ddim i fyfyrwyr tramor a gwladolion tramor sy'n byw yn y rhanbarth yn y Ganolfan Addysg Ryngwladol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Tîm Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol | Parhaus. | Adborth gan Uwch Diwtoriaid ar hyder staff o ran gallu tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â lles yn briodol, ac wrth gyfeirio myfyrwyr rhyngwladol at y gefnogaeth berthnasol. | Parhaus. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Tîm Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol | Parhaus. | Nifer y rhain sy’n mynd ar y gweithdai ac adborth gan fynychwyr. | Mae grwpiau strategol y Brifysgol a phwyllgorau cydraddoldeb lefel coleg yn parhau i hyrwyddo'r maes hwn.<br><br>Darperir hyfforddiant ar sensitifrwydd diwylliannol gan ein Tîm Cefnogaeth Ryngwladol. Cynhelir dau weithdy gwahanol bob tymor, un ar Heriau cefnogi a gweithio gyda myfyrwyr rhyngwladol a'r llall ar UKVI a chydymffurfiaeth i fyfyrwyr rhyngwladol. Cynhelir y ddau gan y Swyddfa Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol trwy hyfforddiant Datblygu Staff. |
| 2.2 | Cynnwys myfyrwyr yn llawn, waeth beth eu statws o ran anabledd, hunaniaeth | Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr. | Parhaus. | Mae adroddiad Data Cydraddoldeb Myfyrwyr a gwerthusiad gwasanaeth yn dangos bod | Mae Gwasanaeth Cymorth Trais Rhywiol ac Aflonyddu Gwasanaethau Myfyrwyr a'u rolau mewn ystyr mwy cyffredinol, yn darparu'r cymorth sydd ei angen ar fyfyrwyr i gael eu cynnwys yn llawn, os yw eu mater yn ymwneud â nodwedd warchodedig. Mae UM hefyd yn cynnal llawer o weithgareddau yn y maes hwn. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | rhyw, tarddiad/ ethnigrwydd a phob nodwedd warchodedig ym mhob agwedd ar fywyd y brifysgol a hyrwyddo profiad cadarnhaol yn y brifysgol i bawb. | | | pob grŵp myfyrwyr yn cael mynediad at gymorth. | Mae’r Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr bellach yn darparu hyfforddiant staff aml-lefel ar ddatgeliadau trais rhywiol ac mae ganddynt dîm ymateb i ddatgeliadau ar draws y campws.<br><br>Ers 2022 mae’r Brifysgol bellach yn cynnig gofal plant am ddim i fyfyrwyr â phlant 3 a 4 oed, ac yn hyrwyddo hyn.<br><br>Bydd y Brifysgol yn parhau i edrych ar ffyrdd o helpu a chefnogi myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys projectau, mentrau a digwyddiadau sy'n helpu i gysylltu myfyrwyr â chymunedau lleol. Er enghraifft:<br><br>Gweithio gyda myfyrwyr ethnig lleiafrifol i gynnal digwyddiad lansio 'Pobl Ifanc, Nawr yw'r Amser' yn Pontio fel rhan o Fis Hanes Pobl Ddu Hydref 2022.<br><br>Digwyddiadau a phrojectau rhwng BLAS, cangen ymgysylltu cymunedol Pontio, a Chymdeithas Affrica Gogledd Cymru.<br><br>Gweithio gyda Sefydliad Confucius ar eu digwyddiadau Blwyddyn Newydd Tsieineaidd yn Pontio ym mis Ionawr 2023. |
| | | Undeb y Myfyrwyr. | Bob blwyddyn. | Mae ymwybyddiaeth myfyrwyr o’r gefnogaeth a'r niferoedd sy'n cael cefnogaeth yn cynyddu. | Gyda’r dychwelyd i’r campws yn 2021/22 gwelwyd cynnydd disgwyliedig yn nifer y myfyrwyr a oedd yn defnyddio gwasanaethau cefnogi myfyrwyr. Er bod gwaith ataliol yn parhau i fod yn hanfodol, dylid ystyried cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn fater cadarnhaol oherwydd fel arall mae’n bosib na chawsai’r myfyrwyr hynny gefnogaeth o gwbl. Mae data o Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Myfyrwyr 2021/22 yn dangos bod y gwasanaeth yn gallu dangos lefelau uchel o foddhad myfyrwyr. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.3 | Creu cymuned prifysgol sy'n cefnogi iechyd meddwl a lles cadarnhaol trwy gynorthwyo myfyrwyr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion iechyd meddwl yn unol â'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles dan arweiniad Myfyrwyr. | Gwasanaethau Myfyrwyr. Penaethiaid Ysgolion. Cyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu. Undeb y Myfyrwyr. Pwyllgorau Cydraddoldeb y Colegau. | Parhaus. | Mwy o bobl i gymryd rhan mewn agweddau cadarnhaol a datblygiadol o'r hyn y mae Gwasanaethau Myfyrwyr yn ei gynnig.<br><br>Mae adborth gan fyfyrwyr trwy arolygon Undeb Bangor a'r Brifysgol yn dangos eu bod yn teimlo y gallant geisio cymorth priodol ac amserol.<br><br>Mae adborth gan Uwch Diwtoriaid yn dangos mwy o hyder ymysg staff bugeiliol o ran atgyfeirio myfyrwyr am gefnogaeth briodol. | Ysgrifennwyd y Strategaeth newydd Iechyd Meddwl a Lles dan Arweiniad Myfyrwyr ar y cyd ag Undeb Bangor, yn seiliedig ar ymgynghori helaeth rhwng myfyrwyr a staff. Derbyniodd strategaeth newydd 2023-25 gymeradwyaeth derfynol gan Fwrdd Gweithredol y Brifysgol ar 18 Ionawr 2023. Mae gwaith lledaenu a gweithredu yn mynd rhagddo ar hyn o bryd drwy grŵp llywio'r strategaeth.<br><br>Mae cwricwla Baglor mewn Nyrsio yn cynnwys sesiynau addysgu ar faterion iechyd meddwl cyffredin a hunanofal, yn ogystal, mae gan y cwricwla newydd fodiwl Addysg Ryngbroffesiynol arwahanol ym mlwyddyn 1 a 2 y mae myfyrwyr nyrsio, radiograffeg a ffisiotherapi yn ei ddilyn.<br><br>Mae pob tiwtor personol, llawer ohonynt yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol, yn ymwybodol at bwy i gyfeirio myfyrwyr mewn perthynas â chyllid, llety, cwnsela ac iechyd meddwl.<br><br>Yn yr Ysgol Gwyddorau Iechyd, mae chwe aelod o staff bellach wedi cwblhau hyfforddiant ac maent bellach yn aelodau o dîm Ymateb i Ddatgeliadau Rhywiol PB.<br><br>Mae ysgolion yn gweithredu system ddyddiol cysylltu â thiwtoriaid ar frys, lle gall myfyrwyr gysylltu ag unrhyw fater brys.<br><br>Mae'r Brifysgol yn ymgysylltu â'r gymuned LHDTC+ drwy broject cenedlaethol myf.cymru, sef project i sicrhau bod myfyrwyr yn cael gwell mynediad at gymorth iechyd meddwl trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r project yn helpu i ymgysylltu â'r gymuned LHDTC+ drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol, podlediadau a fideos;<br>Mae myfyrwyr hefyd wedi sefydlu grŵp LHDTC+ newydd o'r enw "Queer Quest" a fydd â chyfleoedd gwirfoddoli, ymgyrchu a chodi arian ar gyfer y gymuned LHDTC+. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae boddhad gyda darpariaeth iechyd meddwl myfyrwyr yn parhau i fod yn uchel.<br>Mwy o ymwybyddiaeth gan fyfyrwyr am y Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles dan Arweiniad Myfyrwyr yn ôl mesur ymgysylltiad â chyfryngau cymdeithasol. | Ar gyfer Cwnsela, cafwyd gostyngiad cyffredinol mewn boddhad cyffredinol yn ystod 21/22 o 92% i 80% ac roedd ein hamseroedd aros ar gyfartaledd yn uwch nag erioed, sef 5.96 diwrnod. Fodd bynnag, cafodd ei ostwng i 4.35 ar gyfer tymor yr hydref 2022 ac erbyn diwedd Ionawr 2023 fe'i gostyngwyd ymhellach i 3.69 diwrnod. Mae hyn yn ôl i lefelau cyn-bandemig a lefel uchel iawn o ymatebolrwydd. Disgwyliwn i hyn drosi i lefelau boddhad gwell ar gyfer y flwyddyn academaidd hon pan fyddwn wedi casglu adborth am y flwyddyn. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Yr Ysgol Gwyddorau Dynol ac Ymddygiadol a Gwasanaeth Cwnsela Myfyrwyr. | Blwyddyn academaidd 2021/22. | Datblygu ac achredu modiwl yn llwyddiannus.<br><br>Myfyrwyr yn ymgysylltu ac yn cwblhau'r modiwl. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Monitro ymgysylltiad a lefelau boddhad. | |
| | | Ymarferwyr Lles | Parhaus. | Gostyngiad mewn amseroedd aros ar gyfer apwyntiad 1af. Monitro mynediad at gefnogaeth: Derbyn Apwyntiad Galw Heibio ar y diwrnod. | Mae’r un pwynt mynediad at gefnogaeth iechyd meddwl wedi bod ar gael drwy gydol y flwyddyn, ac fe’i hysbysebir ar dudalen we Tîm Lles y Gwasanaethau Myfyrwyr, yn y Llawlyfr Myfyrwyr, e-byst a thaflenni eraill. Mae'r cyfeiriad e-bost yn cael ei fonitro gan dîm gweinyddol. Cyflwynwyd therapi un sesiwn, ac mae'n galluogi mynediad cyflym at y gefnogaeth sydd ei hangen. Mae amseroedd aros wedi'u lleihau'n sylweddol.<br><br>Y Tîm Lles \| Gweinyddu a Gwasanaethau Myfyrwyr \| Prifysgol Bangor. |
| | | Ymarferwyr Iechyd Meddwl. | Parhaus. | Cyflwyno 2 weithdy MHFA sydd wedi derbyn adborth cadarnhaol. | Mae'r sesiynau'n parhau ac yn cael ymateb da iawn. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Ymarferwyr Lles. | Parhaus. | Cyflwyno 3 sesiwn, monitro presenoldeb ac adborth. | Mae'r sesiynau'n parhau i gael eu cynnal. |
| 2.4 | Sicrhau bod amrywiaeth yn y cwricwlwm a chynrychiolaeth academaidd a bod addysgu ac asesu yn hygyrch ac wedi'u ffocysu'n eang i gynnwys pob grŵp o bobl o bob gwahanol gefndir a diwylliant gan gynnwys pob nodwedd a hunaniaeth. | Pennaeth SA, Penaethiaid Ysgolion, Cyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu Ysgolion. | Parhaus. | Gwell cyfraddau boddhad myfyrwyr. | Mae grŵp newydd wedi'i sefydlu i edrych ar sicrhau cwricwlwm amrywiol ar draws pob ysgol.<br><br>Ffurfiwyd grŵp Dad-drefedigaethu'r cwricwlwm yn 2021 ac mae wedi dechrau edrych ar y mater hwn.<br><br>Mae'r Rhwydwaith LHDTC wedi nodi cam gweithredu i gael mwy o ryngweithio ag ysgolion trwy Bwyllgorau Cydraddoldeb y Colegau er mwyn cefnogi'r gwaith o sicrhau cwricwlwm amrywiol, ac i sicrhau bod materion LHDTC yn cael eu cynnwys trwy awduron/ achosion/ ymchwil yn eu modiwlau. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhwydwaith LHDTC. Pwyllgorau Cydraddoldeb y Colegau. | | | Mae Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Ysgol Gwyddorau Iechyd yn cynnwys Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa, ôl-gofrestru, Cyfarwyddwyr ôl-radd ac is-radd ac Arweinwyr Cwrs a chynrychiolwyr myfyrwyr ar draws yr holl raglenni a gynigir gan yr Ysgol. (Bydd gwahoddiad i staff y gwyddorau meddygol yn cael ei wneud.) Mae trafodaethau wedi'u cynnal mewn perthynas ag adnoddau addysgu a dysgu gan gynnwys rhestrau darllen, cyflwyno ac asesu fel eu bod yn gynrychioliadol o'r corff myfyrwyr ac yn hygyrch i bawb. Mae hyn yn cynnwys defnyddio modelau amrywiol, adnabod a nodi arwyddion a symptomau mewn pobl o hunaniaethau Lleiafrifol Ethnig a'r iaith a'r enghreifftiau a ddefnyddir yn ystod addysgu.<br><br>Mae cynrychiolwyr cwrs yn cael eu cynnwys wrth ddilysu ac ail-ddilysu rhaglenni. |
| 2.5 | Lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng myfyrwyr o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a myfyrwyr gwyn. | | 2023 | Bydd penodi Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol newydd ar gyfer amrywiaeth a chynhwysiant yn galluogi gwaith yn y maes hwn ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23. | Mae gwaith bellach wedi dechrau ac wedi'i nodi fel rhan allweddol o rôl newydd y Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol ar gyfer Amrywiaeth a Chynhwysiant. Bydd bylchau cyrhaeddiad hefyd yn ffocws allweddol i'n gwaith a'n hymrwymiad i Siarter Cydraddoldeb Hil Advance HE.<br><br>Mae adroddiad bwlch cyrhaeddiad myfyrwyr blynyddol yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi'n flynyddol, gweler yma:<br><br>https://www.bangor.ac.uk/quality/index.php.en |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.6 | Gweithio tuag at gynhwysiant llawn myfyrwyr anabl yn y gymuned academaidd a chymdeithasol, gan feithrin gwytnwch a hunanddibyniaeth. Cael gwared ar rwystrau a hyrwyddo cydraddoldeb addysgu a dysgu i fyfyrwyr anabl trwy ymgorffori cynwysoldeb a hyrwyddo Model Cymdeithasol Anabledd. | Gwasanaethau Anabledd / Pennaeth Cefnogaeth a Lles Myfyrwyr | Parhaus. | Camau Gweithredu / Cofnodion o bwyllgorau addysgu a dysgu sy'n adlewyrchu cynhwysiant. | Mae'r cyfrifoldeb hwn wedi'i ddatganoli i'r Tiwtoriaid Anabledd ym mhob ysgol sy'n eistedd ar y Pwyllgorau Addysgu a Dysgu fel y manylir yn y canllawiau i Diwtoriaid Anabledd. |
| | | | | | Yn y Coleg Gwyddorau Dynol mae'r Tiwtor Anabledd yn aelod o'r pwyllgorau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, ac Addysgu a Dysgu, ac yn darparu cefnogaeth i diwtoriaid personol ac arweinwyr modiwlau. Mae'r cynrychiolydd cwrs Anabledd Myfyrwyr yn aelod o bwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Ysgol<br><br>Anogir pob myfyriwr i rannu unrhyw anghenion ychwanegol/eu CCDP os oes ganddynt un, gyda'r unigolyn priodol o ran adnoddau addysgu ac asesiadau.<br><br>Mae cynrychiolwyr UM yn aelodau o'r Pwyllgorau Addysgu a Dysgu. |
| | | Gwasanaethau Anabledd. | Parhaus. | Presenoldeb mewn cyfarfodydd | Mae'r grŵp hwn yn weithgar ac mae presenoldeb da iawn. Adroddwyd ar y cynnydd eisoes fel uchod. |
| | | Cefnogaeth a Lles Myfyrwyr. | Parhaus. | Presenoldeb mewn cyfarfodydd ac adborth | Parhaus. |
| 2.7 | Sicrhau cynnig cynhwysol o ran cyflogadwyedd myfyrwyr sy'n ystyried y | Y Swyddfa Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol. | Parhaus. | Monitro presenoldeb ac adborth | Mae gan ysgolion arweinwyr Cyflogadwyedd sy'n rhannu arweiniad ar draws y Brifysgol a'r Coleg gyda'u Hysgolion priodol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | rhwystrau a wynebir gan fyfyrwyr a chanddynt gefndiroedd, diwylliannau a hunaniaethau amrywiol.  Mynd i'r afael yn benodol â rhwystrau sy'n codi o'r amserlen. | | | | |
| | | Gwasanaeth Cyflogadwyedd. | Academaidd Blwyddyn 21/22. | Monitro ymgysylltiad ac effaith y tri phroject. | Yn dilyn y pandemig, mae addysgu a dysgu wedi dod yn fwy cyfunol rhwng yn y cnawd ac ar-lein.<br><br>Roedd Rhaglen Cyflawni drwy Brofiad Gwaith GO Wales yn broject ESF/WEFO a ddaeth i ben ym mis Hydref 2022.<br>Oherwydd ei lwyddiant, mae HEFCW bellach yn ariannu rhaglen olynol (Rhaglen Cefnogi Profiad Gwaith) sy'n dal i fod yn rhan o'r Gwasanaeth Cyflogadwyedd ac yn cynnig cefnogaeth i garfan ehangach o fyfyrwyr yn seiliedig ar y strategaeth/agenda Ehangu Mynediad.<br><br>Gall rhwystrau ddeillio o nifer o wahanol ffactorau megis: caledi ariannol, anabledd, gwahaniaeth dysgu, iechyd meddwl a dyletswyddau gofalu. Blaenoriaethir cymorth i’r rhai sydd ag ychydig neu ddim profiad blaenorol o waith:<br><br>Cefnogaeth Profiad Gwaith \| Canolfan Cyflogadwyedd \| Prifysgol Bangor<br><br>Mae ein Rhaglen Cefnogaeth i Raddedigion a ariennir gan HEFCW i helpu myfyrwyr i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth yn parhau tan 31 Gorffennaf 2023. Rydym |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | yn gobeithio sicrhau cyllid parhaol ar gyfer swydd gefnogi sy'n benodol i raddedigion, fodd bynnag, mae ein Gwasanaeth Cyflogadwyedd yn wastad wedi cefnogi graddedigion am hyd at dair blynedd ar ôl graddio.<br><br>Daeth project 'Ambitious about Autism' Prifysgol Bangor i ben yn haf 2022. Mae tanwariant o'r project hwnnw a chytunwyd y byddwn yn dechrau project arall gyda'r diben o ddod o hyd i interniaethau i gefnogi myfyrwyr a graddedigion sy'n dod o dan y meini prawf ehangu cyfranogiad. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.8 | Cynyddu'r gefnogaeth a ddarperir gennym i fyfyrwyr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd er mwyn iddynt allu goresgyn anfantais. | Cefnogi Myfyrwyr. | Parhaus | Byddai hyn yn bwydo i mewn i fonitro cynnydd cyffredinol gan y Swyddfa Gynllunio fel rhan o adrodd ar y Cynllun Ffioedd a Mynediad. | Yn ystod 21/22 bu cynnydd sylweddol yn nifer y bwrsariaethau a ddyfarnwyd i fyfyrwyr â phrofiad o fod mewn gofal, myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd a myfyrwyr sy'n ofalwyr. Roedd nifer y myfyrwyr sy’n gadael gofal hefyd yn dangos cynnydd o 44 yn 2020/21, i 53 yn 2021/22.<br><br>Darperir gohebiaeth reolaidd wedi’i thargedu gan yr Uned Cefnogaeth Ariannol i fyfyrwyr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd a myfyrwyr sydd wedi gadael gofal, yn eu hatgoffa o'r gefnogaeth sydd ar gael, ac yn amlygu dyddiadau allweddol megis pryd i wneud cais am gyllid myfyrwyr. Darperir 'sioe deithiol' o sesiynau galw heibio o amgylch y campws fel ffurf 'estyn allan' o gyngor, a<br>chysylltir yn unigol â myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd ac sydd wedi gadael gofal ynghylch y cyfleoedd hyn. |

| Nod Strategol 3:<br>(*ffocws ar staff*)<br>**Denu a dal gafael ar yr holl staff mewn gweithle cynhwysol ac amrywiol lle gall pawb ffynnu**. | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Amcan | Cyfrifoldeb | Amserlen | Mesur Llwyddiant | Cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion (gweler yr allwedd) |
| 3.1 | Nodi cyfleoedd a rhwystrau i recriwtio, dyrchafu a rheoli gweithlu amrywiol. | Adnoddau Dynol. | Yn ystod y blynyddoedd academaidd 2021/22 a 2022/23. | Cynnydd yn nifer y staff o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. | Gweler y wybodaeth a adroddwyd yn yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol (y mae'r ddogfen hon wedi'i hatodi iddo) am feysydd a amlygwyd ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. |
| | | Adnoddau Dynol (Swyddog Datblygu Staff a Chydraddoldeb). | Parhaus. | Hysbysebu'r hyfforddiant, niferoedd uchel o gyfranogiad ac adborth cadarnhaol. | Hysbysir staff newydd o'r angen i gwblhau'r hyfforddiant Rhagfarn Ddiarwybod yn y llythyr sy'n cyd-fynd â'u contract cyflogaeth, cânt wybod am hyn hefyd yn ystod y Diwrnod Cynefino.<br><br>Atgoffir yr holl staff yn rheolaidd trwy'r Bwletin Staff.<br><br>Cynhaliwyd 5 sesiwn cydraddoldeb yn y cnawd ar gyfer y Tîm Cyfleusterau ym mis Mehefin 2021, gan gynnwys sesiynau yn gynnar yn y bore i staff ar shifftiau ac oherwydd nad oes gan y staff hyn fynediad rheolaidd i systemau TG bob amser. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.2 | Gwella cynhwysiant trwy reoli pobl yn well ar draws y brifysgol. | Adnoddau Dynol. | Yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/23. | Cyhoeddi canllawiau a hyfforddiant cysylltiedig a sicrhau bod staff yn manteisio arnynt. | Mae 'Canllawiau Hanfodol i Reolwyr' wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno. Pan nodir bod gan aelod newydd o staff gyfrifoldebau staffio, anfonir y canllawiau newydd hyn atynt yn ystod eu hwythnosau cyntaf yn y swydd. Mae'r canllawiau'n ymdrin ag ystod eang o bynciau a fyddai'n berthnasol i'r rhai sydd â chyfrifoldebau rheoli, gan gynnwys adran ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.<br><br>Cyn ei roi ar waith, cafodd y canllawiau eu treialu hefyd, a cheisiwyd adborth gan y rhai a oedd wedi ymuno â'r Brifysgol yn ddiweddar iawn. |
| | | Adnoddau Dynol (Datblygu Staff, Rheolwr Concordant Ymchwil a Swyddog Cydraddoldeb). | Erbyn 2023/24. | Canran uchel o reolwyr i fynychu'r gweithdy 'Rheolwyr Bangor' a Rheolwyr Ymchwil i fynychu'r gweithdy 'Rheolwyr Ymchwil Bangor'. | Cyflwynwyd rhaglen 'Rheolwyr Bangor', gyda'r garfan gyntaf yn dechrau yn 2021, ac wedi cwblhau pob elfen o'r rhaglen yn 2022. Dechreuodd ail garfan o Reolwyr yn hydref 2022 ac maent bellach yn symud ymlaen drwy'r rhaglen.<br>Mae elfennau niferus ac amrywiol i'r rhaglen, ac un ohonynt yw 'Cydraddoldeb ac amrywiaeth i reolwyr'. |
| | | Adnoddau Dynol (Datblygu Staff) | Yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/23. | Cyhoeddi'r Fframwaith Ymddygiad Proffesiynol, ei roi ar waith, a chodi ymwybyddiaeth. | Caiff ei ystyried i'w cynnwys yn y Strategaeth Pobl. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.3 | Gweithio i annog a sicrhau mwy o amrywiaeth ym meysydd llywodraethu, rheoli ac arwain. | Rheolwr Athena SWAN. Swyddog Cydraddoldeb Adnoddau Dynol. | Bob blwyddyn. | Gwell amrywiaeth mewn grwpiau sy'n gwneud penderfyniadau. Mwy o ymwybyddiaeth o fanteision amrywiaeth wrth wneud penderfyniadau lefel uchel. | Caiff gwybodaeth ei dadansoddi a'i hadrodd yn flynyddol. Cynhaliwyd Gweithdy Amrywiaeth Bwrdd i'r Cyngor ar 28/03/2022 ac arweiniodd at Gynllun Gweithredu i'r Cyngor. |
| | | Grŵp Athena SWAN. Bwrdd Gweithredol. Adnoddau Dynol (Datblygu Staff) Pob aelod o staff uwch. | Parhaus. | Gweler y dangosyddion perfformiad allweddol yn Adroddiad Merched mewn Arweinyddiaeth 2020. | Mae DPA bellach yn cael sylw trwy Gynllun Gweithredu'r Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.4 | Parhau i wneud cynnydd â'r cynllun gweithredu i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac ehangu ein dadansoddiad i ystyried nodweddion gwarchodedig eraill. | Adnoddau Dynol. | Adroddiadau blynyddol yn yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol a’r porth Llywodraethu. | Gostyngiad yng nghanolrif (a chymedr) y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. | Y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau (dyddiad cipolwg 31 Mawrth 2022) yw:<br><br>• Canolrif 5.8%<br>• Cymedr 13.2%<br><br>Ffigurau'r blynyddoedd blaenorol (dyddiad cipolwg 31 Mawrth 2021) oedd:<br><br>• Canolrif 5.7%<br>• Cymedr 13.7%<br><br>Ffigurau'r blynyddoedd blaenorol (dyddiad cipolwg 31 Mawrth 2020) oedd:<br><br>• Canolrif = 7.2%<br>• Cymedr = 13.9% |
| | | Adnoddau Dynol. | O 2021, cyhoeddir pob mis Mawrth yn yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol. | Meincnodi unrhyw fwlch cyflog ethnigrwydd a gostyngiadau yn y dyfodol. | Y Bwlch Cyflog Ethnigrwydd ar lefel sefydliadol (o 31 Mawrth 2022) yw:<br><br>Canolrif -8.4%<br>Cymedr -4.9%<br><br>Ffigurau’r flwyddyn flaenorol oedd:<br><br>• Canolrif -1.7%<br>• Cymedr -12.1%<br><br>Ffigurau blynyddoedd blaenorol:<br><br>• Canolrif -34.2%<br>• Cymedr -10.6% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | (Mae nifer negyddol yn dangos bod staff â chefndir du, asiaidd a lleiafrif ethnig yn cael mwy o dâl na staff gwyn.) |
| | | Adnoddau Dynol. | O 2022, cyhoeddir pob mis Mawrth yn yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol. | Meincnodi unrhyw fwlch cyflog anabledd a gostyngiadau yn y dyfodol. | Y Bwlch Cyflog Anabledd ar lefel sefydliadol (o 31 Mawrth 2022) yw:<br><br>• Canolrif 15%<br>• Cymedr 11.1%<br><br>Ffigurau blynyddoedd blaenorol:<br><br>• Canolrif 16.8%<br>• Cymedr 12.9%<br><br>Nid oes ffigurau ar gyfer y flwyddyn flaenorol. |
| 3.5 | Parhau i wneud cynnydd â'r cynllun gweithredu Athena SWAN. | Rheolwr Athena SWAN a Grŵp Athena SWAN. Penaethiaid Ysgolion. Pwyllgorau Cydraddoldeb y Colegau. Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol | Monitro trwy Grŵp Athena SWAN PB a'r ddwy ffenestr ymgeisio bob blwyddyn (Ebrill a Thachwedd). | Pob Ysgol i fod wedi ennill gwobr Athena SWAN erbyn 2023. PB i fod wedi ennill gwobr Arian Sefydliadol erbyn 2023. | Bellach mae gan chwe Ysgol wobrau Efydd (Ysgol Gwyddorau Eigion, Busnes, Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig, Ysgol Gwyddorau Naturiol, Gwyddorau Meddygol ac Iechyd, Gwyddorau Dynol ac Ymddygiadol).<br><br>Mae Siarter Athena Swan wedi cael ei thrawsnewid yn sylweddol yn ddiweddar yn dilyn adolygiad annibynnol. Cyhoeddwyd y meini prawf a'r prosesau newydd ar 30/06/21.<br><br>Nid oedd cyflwyniadau pellach ers 2020 oherwydd bod y siarter yn cael ei diwygio. Mae'r tair ysgol arall bellach yn gweithio tuag at gyflwyno yn 2023. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Papur ar y Siarter newydd a chynnydd i Arian wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol ddiwedd 2021. Bydd cais PB am wobr Arian yn cael ei gyflwyno ddiwedd Tachwedd 2023. |
| 3.6 | Gwella gweledydd Prifysgol Bangor fel gweithle cynhwysol a chefnogol a chodi ymwybyddiaeth am y gefnogaeth sydd ar gael. | Marchnata, Cyfathrebu a Recriwtio | Parhaus. | Datganiad o gefnogaeth wedi'i gyhoeddi. | Mae gan ein tudalennau gwe y datganiadau hygyrchedd gofynnol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod yr holl adnoddau yn gynhwysol ac yn hygyrch.<br><br>Yn 2022, fe wnaethom greu datganiad hygyrchedd ar gyfer ein gwefan mewn cydweithrediad ag All Able Cyf:<br><br>https://www.bangor.ac.uk/accessibility-statement |
| | | Adnoddau Dynol.<br>Swyddog Cydraddoldeb Myfyrwyr.<br>Pob rheolwr. | Parhaus. | Datblygwyd canllawiau i reolwyr. | Mae codi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a sut y gall rheolwyr gefnogi eu staff wedi'i gynnwys yn y Gweithdy Cydraddoldeb i Reolwyr.<br><br>Adnoddau Dynol yn ystyried datblygu Polisi Cam-drin Domestig yn unol â chanllawiau diweddaraf y llywodraeth ac ymarfer gorau AU<br><br>Ar gyfer myfyrwyr, rydym wedi parhau i ddarparu a datblygu ein Gwasanaeth Cymorth Trais Rhywiol ac Aflonyddu gan gynnwys datblygu ein Tîm Ymateb i Ddatgeliadau.<br><br>I baratoi ar gyfer y Brifysgol yn cynnig cyngor i staff yr effeithir arnynt gan unrhyw un o'r uchod, rhoddodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr hyfforddiant i |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ddetholiad o Hyrwyddwyr Cydraddoldeb mewn Ymateb i Ddatgeliadau o Drais Rhywiol a Thrais Domestig a chyflwynodd gwrs hyfforddi diwrnod llawn. |
| 3.7 | Hyrwyddo a hybu cefnogaeth gyson i weithwyr/ymarfer teulu-gyfeillgar a darparu ar gyfer gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn unol ag arweinwyr y sector. | Adnoddau Dynol.<br>Penaethiaid Ysgolion.<br>Cyfarwyddwyr. | Parhaus. | Adborth gan staff trwy Arolygon Staff a chan rieni sy'n fyfyrwyr trwy arolygon Undeb Bangor ac arolygon y Brifysgol | Parhaus fel canlyniad i Arolwg Staff 2022.<br><br>Bellach gellir ymuno â llawer o gyfarfodydd adrannol a phrifysgol o bell, sy'n golygu bod staff â gofynion hygyrchedd a chyfrifoldebau gofalu yn fwy tebygol o allu mynychu. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Adnoddau Dynol. | Parhaus. | Mwy o weithwyr yn manteisio ar bolisïau i gefnogi gweithwyr e.e. absenoldeb rhiant a rennir, prynu gwyliau blynyddol etc. | Cyhoeddir yr holl Bolisïau ar ein gwe-dudalennau ac mae gan staff swyddog Adnoddau Dynol penodedig.<br><br>Cynigir hyfforddiant rheolaidd ar bolisïau cefnogaeth i weithwyr drwy gydol y flwyddyn academaidd a chaiff ei hysbysebu ar dudalen we Datblygu Staff Adnoddau Dynol.<br><br>Ni fu unrhyw gynnydd yn y nifer sy’n manteisio ar absenoldeb rhiant a rennir yn ystod y cyfnod adrodd. |
| 3.8 | Creu cymuned prifysgol sy'n cefnogi iechyd meddwl a lles cadarnhaol trwy gynorthwyo staff i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion iechyd meddwl. | Dirprwy Is-ganghellor Lles.<br>Grŵp Iechyd a Lles.<br>Adnoddau Dynol.<br>Gwasanaethau Myfyrwyr. | Parhaus. | Gweler targedau a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn y Strategaeth Iechyd a Lles. | Yn ystod 2022 datblygwyd a darparwyd amrywiaeth o fentrau sy’n canolbwyntio ar staff, dan arweiniad y Grŵp Iechyd a Lles:<br><br>• Ychwanegwyd cwestiwn am les at yr Adolygiad Datblygu Perfformiad, gan gynnwys sut y gall staff gynllunio i ofalu am eu lles yn y flwyddyn i ddod, |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Cynnig Prynhawn Llesiant ar draws mis Mawrth i'r holl staff fuddsoddi yn eu llesiant,<br><br>• Gwirio pwysedd gwaed am ddim ar y campws i bob aelod o staff fel rhan o wythnos Gwybod Eich Rhifau,<br><br>• Cyflwyno darpariaeth hyfforddiant lles am ddim sydd ar gael i'r holl staff trwy hyfforddwyr lles cymwysedig,<br><br>• Mae dros 100 o reolwyr llinell wedi cael derbyn hyfforddiant iechyd meddwl i-act,<br><br>• Ariannwyd y gwaith o gyflwyno hyfforddiant i wyliedyddion (Darpariaeth Gwasanaethau Myfyrwyr)<br>• Cynhaliwyd gweminar Lles Ariannol fel rhan o Wythnos Siarad am Arian. |
| 3.9 | Hyrwyddo cymuned gynhwysol, groesawgar i aelodau staff rhyngwladol. | Adnoddau Dynol. | Parhaus. | Ennyn diddordeb staff a llunio cynlluniau gweithredu effeithiol. | Mae Adnoddau Dynol yn parhau i ddarparu canllawiau arbenigol wedi'u teilwra i staff nad ydynt yn dod o'r Deyrnas Unedig, ac maent yn bwriadu adolygu a chynnwys cefnogaeth ar-lein newydd i staff rhyngwladol newydd ar dudalennau gwe staff yn 2023. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Adnoddau Dynol. | Parhaus. | Dim gostyngiad yn nifer y staff o wledydd yr Undeb Ewropeaidd. | Yn 2017/18 roedd staff yr Undeb Ewropeaidd yn cyfrif am 6.9% o'r holl staff.<br>Yn 2018/19 – 7.3%<br>Yn 2019/20 – 7%<br>Yn 2020/21 – 6.8%<br>Yn 2021/22- 6.7% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.10 | Ystyried camau i ddarparu ar gyfer gweithlu sy'n heneiddio a phrinder llafur posib. | Adnoddau Dynol.<br>Undebau Llafur. | Erbyn 2024: | Datblygwyd strategaeth i fynd i'r afael ag effeithiau posibl gweithlu sy'n heneiddio. | Ddim i'w gyflawni eto. |
| 3.11 | Archwilio'r rhesymau am gyfraddau datgelu isel mewn perthynas â rhai nodweddion gwarchodedig h.y. cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd a chred (a diffyg cred). Ceisio gwella cyfraddau datgelu nodweddion gwarchodedig gan staff a chynyddu ymwybyddiaeth a gwelededd y grwpiau gwarchodedig hyn. | Adnoddau Dynol.<br>Rhwydwaith LHDT.<br>Grŵp Ffydd.<br>Hyrwyddwyr Cydraddoldeb. | Blwyddyn academaidd 2021/22. | Gostyngiad yn nifer y staff sy'n gwrthod darparu'r wybodaeth hon i'n galluogi i asesu a ydym yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth leol a'n myfyrwyr. | Bydd y gwaith hwn bellach yn cyd-fynd â chyflwyno iTrent, system newydd Adnoddau Dynol i staff, i'w lansio yn ystod mis Ebrill 2023. |
| | | Rhwydwaith LHDTC.<br>Adnoddau Dynol.<br>Gwasanaethau Myfyrwyr.<br>Pontio | Parhaus. | Cynnydd yn nifer y staff sy'n cymryd rhan. | Mae gennym bellach dudalen we a chyfrif e-bost LHDTC+ pwrpasol lle gellir gofyn am gyngor a chymorth cyfrinachol.<br><br>Mae camau gweithredu i gynyddu ymwybyddiaeth ac amlygrwydd yn cynnwys:<br><br>• PB yn noddi ac yn cymryd rhan yn Balchder Gogledd Cymru 2022<br>• Baner enfys ym Mhrif Adeilad y Celfyddydau a Pontio yn ystod mis balchder |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Rhwydwaith cymdeithasol i gynyddu amlygrwydd a chefnogaeth ymhlith staff a myfyrwyr LHDTC+.<br>• Sesiwn groeso LHDTC+ i fyfyrwyr newydd ynghyd ag UNDEB.<br>• Siaradwyr gwadd/gŵyl ffilmiau yn Pontio ar gyfer Mis Hanes LHDTC+ |
| | | Arweinydd y Project Iechyd a Llesiant. Adnoddau Dynol. | Blwyddyn academaidd 2022/23. | Cwblhawyd yr ymgynghoriad a gweithredwyd ar y canlyniadau h.y. sefydlwyd y grŵp/grwpiau. | Cynhaliwyd Diwrnod Datblygu Iechyd a Llesiant yn 2022 gan gytuno ar gam gweithredu i ymchwilio i ddulliau ymarfer gorau wrth sefydlu rhwydweithiau staff. Mae hyn bellach yn cael ei wneud gan ein Arweinydd Project Iechyd a Llesiant i sicrhau bod ein dull gweithredu yng nghyswllt rhwydweithiau staff yn cyd-fynd â'n nodau o amgylch Iechyd a Llesiant ac ymdeimlad staff o berthyn ym Mhrifysgol Bangor. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau a symudir ymlaen â chamau gweithredu yn 2023. |

| Nod Strategol 4:<br>*(Cenhadaeth ddinesig a chymunedol)*<br>**Cydweithio ac ymwneud â grwpiau nad ydynt yn draddodiadol wedi ymwneud â'r brifysgol.** |
|---|
| Ers datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig hwn, mae Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig newydd Prifysgol Bangor wedi'i datblygu a bydd yn cael ei lansio ym mis Hydref 2022. Bydd yr holl gamau gweithredu y gellir eu mesur o amgylch Nod Strategol 4 yn awr yn dod o dan y Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig newydd.<br><br>Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig Prifysgol Bangor |